ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Is-ddeddfwriaeth – Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried *Is-ddeddfwriaeth – Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005* 9 Chwefror 2005.

Cafwyd trafodaeth lle codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd Dai Lloyd bryder fod dyddiad anghywir i'w weld ar flaen yr OS ac yng nghymal 1, sef 2004 yn lle 2005.
- Gofynnodd Mike German am eglurhad o'r diffiniadau o 'bleidleisiwr' a 'thalwr' a chyfeiriodd at Baragraff 8.2 ynghylch y rhestr o dalwyr ardrethi domestig a gedwir gan awdurdodau a'u hawl i bleidleisio.

Dyma oedd yr ymateb i'r pwyntiau hyn:

- Eglurodd David Fletcher fod y rheoliadau yn cyfeirio at hereditamentau unigol.

Derbyniodd y Pwyllgor y rheoliadau, ar yr amod bod y dyddiadau ar flaen yr offeryn ac yng nghymal 1 yn cael eu newid.

Ann Jones AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus